Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

17 Medi 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar ddarpariaethau sy'n ymwneud â gwaharddebau i atal niwsans a tharfu ar bersonau, gorchmynion ymddygiad troseddol a'r trothwy cymunedol

## Cefndir

1. Ar 23 a 24 Mai 2013, cyflwynodd Gweinidogion Cymru bedwar Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona[1], sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

2. Cyflwynwyd y Memorandwm hwn gan Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar 24 Mai.

3. Ar 4 Mehefin 2013, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo ei drafod a chytunwyd y byddai'n paratoi adroddiad erbyn 19 Medi 2013.

### *Y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona ("y Bil")*

4. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; annog perchnogion cŵn i ymddwyn yn gyfrifol; mynd i'r afael â'r defnydd o arfau tanio anghyfreithlon gan gangiau a grwpiau troseddu cyfundrefnol; sicrhau bod priodasau o dan orfod yn anghyfreithlon; a gwella safonau proffesiynol yr heddlu.

[1] http://services.parliament.uk/bills/2013-14/antisocialbehaviourcrimeandpolicingbill.html

5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cywasgu'r 19 gorchymyn presennol o fewn 6 gorchymyn newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol: mae'r Bil yn galluogi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd; yn caniatáu ar gyfer adfeddiannu tenantiaethau diogel yn orfodol pan fo tenant yn torri un o'r gorchmynion newydd; yn diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan estyn ei darpariaethau i eiddo preifat; yn cynyddu'r gosb uchaf am fewnforio ac allforio arfau tanio; yn creu trosedd newydd o fod yn berchen ar arfau tanio i'w gwerthu neu eu trosglwyddo; yn gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; yn creu Coleg Plismona newydd a hefyd yn gwneud darpariaethau ynglŷn â rheolaethau ariannol ar brif gwnstabliaid, ac yn estyn pwerau a chylch gwaith Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

### *Prif effaith y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer*

6. Mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ceisir cydsyniad ar gyfer y darpariaethau canlynol yn y Bil:-

- Rhan 1 - Gwaharddebau (disodli, ymhlith pethau eraill, y Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO));
- Rhan 2 – Gorchmynion Ymddygiad Troseddol (disodli, ymhlith pethau eraill, yr ASBO yn dilyn collfarn droseddol);
- Rhan 6 – y Trothwy Cymunedol.

7. Ceir manylion pellach ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Gweinidogion Cymru.

## Ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

8. Buom yn trafod y Memorandwm ar 13 Mehefin 2013 a chytunwyd i wahodd y Gweinidog i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i egluro nifer o faterion. Daeth y Gweinidog i gyfarfod y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2013.

## Cymhwysedd

9. Dylid nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi nodi Rhan 1 fel maes polisi y mae angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar ei gyfer (gweler paragraff 86 o Nodiadau Esboniadol y Bil). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau arfaethedig yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, drwy rinwedd y penawdau canlynol yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru: iechyd a lles anifeiliaid (Pennawd 1), diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys llygredd a niwsans, atal, lleihau, casglu, rheoli, trin a gwaredu gwastraff) (Pennawd 6); hybu iechyd, atal anafiadau, darparu

gwasanaethau iechyd (Pennawd 9); darparu tai (Pennawd 11); pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol (Pennawd 12); lles cymdeithasol a diogelwch a lles plant ac oedolion ifanc (Pennawd 15).

10. Dylid nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi nodi Rhan 2 yn faes polisi y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar ei gyfer (gweler paragraff 86 o Nodiadau Esboniadol y Bil). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau arfaethedig yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, drwy rinwedd y penawdau canlynol yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru: iechyd a lles anifeiliaid (Pennawd 1); hybu iechyd ac atal anafiadau (Pennawd 9); pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion (Pennawd 12); lles cymdeithasol a diogelwch a lles plant ac oedolion ifanc (Pennawd 15).

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaethau yn Rhan 6 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan Bennawd 12 (Llywodraeth Leol) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

12. Mewn perthynas â chymhwysedd, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> "The Bill is cross-cutting, and there are several elements of the Bill relating to anti-social behaviour that relate to matters within the legislative competence of the Assembly, such as health, housing and environmental protection. As was also set out in the UK Government's evidence to the Silk commission, it considers the exception of anti-social behaviour orders, contained under the local government heading in paragraph 12 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006, to cover anti-social behaviour generally. It therefore considers the provisions of Part 1 and Part 2 to be outside the legislative competence of the Assembly. However, we consider the exception to be limited to the Orders under the Crime and Disorder Act 1998. Therefore, many of the provisions in Part 1 and Part 2 of the Bill do not fall within that exception."

13. O ran pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei Bil ei hun i ymdrin â'r darpariaethau, dywedodd y Gweinidog:

> "It is important that we protect our devolved interests in this area. If we want to legislate in the future, it is important that we do that now.

> I just mentioned some aspects of community safety from my portfolio; we are very interested in all elements of that work. We feel that it is appropriate to deal with these provisions in the UK Bill, as this represents the most appropriate way of bringing this legislation forward."

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol – cyffredinol**

14. Dros y blynyddoedd diwethaf, cyflwynwyd nifer o "adnoddau" i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy fwy na 10 Deddf Seneddol. Mae rhai o'r adnoddau hyn, fel y Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, yn bwerau gweddol eang i osod cyfyngiadau ar bobl sy'n ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol. Nod eraill oedd mynd i'r afael â phroblemau penodol iawn. Mae hyn yn arbennig o wir am adnoddau a gyflwynwyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol, fel sbwriel neu graffiti. Mae rhai o'r dulliau o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn berthnasol i unigolion ac mae rhai – fel y gorchmynion gwasgaru neu orchmynion gatio – yn berthnasol i ardaloedd lle y bu problemau.

15. Mae *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998* hefyd yn darparu ar gyfer gwaith partneriaeth statudol rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol ac eraill i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Sefydlwyd rhwydwaith o gydgysylltwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae gwefannau Llywodraeth y DU (e.e. Respect) yn rhoi cyngor manwl i ymarferwyr.

16. Bu'r heddlu hefyd yn datblygu polisi gweithredol ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar blismona ymddygiad gwrthgymdeithasol, '*Stop the rot*' 2010, ac '*A step in the right direction*' 2012.

17. Mae Tabl 1 isod yn crynhoi sut y mae'r Bil yn cynnig symleiddio'r adnoddau i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol:

| | |
|---|---|
| **Pobl**<br>ASBO, Gorchymyn Gwahardd Yfed yn dilyn collfarn, ASBO yn dilyn collfarn, Gorchymyn Cymorth Unigol, Gorchymyn Ymyrryd, Gorchymyn Gwahardd Yfed, Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. | Gwaharddeb i Atal Niwsans a Tharfu ar Bersonau (IPNA), Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO) |
| **Llefydd** | Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, |

| | |
|---|---|
| Hysbysiad Clirio Sbwriel, Gorchymyn Gatio, Gorchymyn Cau Eiddo, Gorchymyn Clirio Sbwriel Stryd, Gorchymyn Rheoli Cŵn, Gorchymyn Cau Mannau Cyflenwi Crac, Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig, Gorchymyn Cau A.161 | Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau a Gorchmynion Cau |
| **Pwerau'r heddlu**<br>Gorchymyn Gwasgaru A.30, Cyfarwyddyd i Adael A.27 | Pwerau Gwasgaru |

18. Mewn ymateb i gwestiwn am sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi plant, dywedodd y Gweinidog:

> "We would expect any Welsh children to be dealt with in a way that respects their rights. I think that, in Wales, we have really led the way. Think about the way in which we have adopted the United Nations Convention on the Rights of the Child as a basis for all our policy making. I do not want to see children criminalised. I think that we have done a huge amount of work. The number of Welsh children in custody has been halved in the last five years. I met this week with the chair of the youth justice board. It was very pleasing to hear of the drop. However, 50 is still too many.
>
> I think that, with the way that this Bill will work, it is very important that we protect the victim, but, as you said, it is very important that we look at it from a children's perspective. I want to make sure that their rights are defended. Our views have been taken into consideration as this policy has been developed. It is not, obviously, a Welsh Government policy. I have already asked my officials to write to the Home Secretary to ask what consultation took place with children and young people, because I think that it is very important, as this Bill has been progressed, that their views have been taken into account."

19. O gael ei holi a oedd rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi cael cyfle i ymgynghori ar y cynigion ai peidio, dywedodd y Gweinidog:

> "You will appreciate that this is UK Government legislation, so it is up to the UK Government as to whom it consults. However, I would hope

> that it would have. I know that there has been some consultation with stakeholders in Wales, but I am not sure of the specific organisations; I do not have detailed information on that. I know that the UK Government had a long consultation; it was 14 weeks, and it had over 1,000 responses. My officials have asked Home Office officials to ensure that all Welsh bodies were given the opportunity to respond to the consultation if they wanted to do so, and that was the case. Very importantly, I think that there is positive engagement between officials."

**Rhan 1 – Gwaharddebau**

20. O dan Ran 1, bydd gorchymyn sifil newydd, y Waharddeb i Atal Niwsans a Tharfu ar Bersonau (IPNA) yn disodli'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) "annibynnol" presennol. Dyma'r ASBO nad oes angen collfarn droseddol ar ei gyfer. Bydd yr IPNA yn disodli gorchmynion eraill hefyd gan gynnwys y Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBI), sydd ar gael at ddefnydd darparwyr tai cymdeithasol ar hyn o bryd.

21. Bydd yr IPNA yn debyg iawn i'r ASBI, a bydd yn defnyddio'r un diffiniad eang o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sef ymddygiad sy'n gallu achosi niwsans i berson neu darfu ar berson, yn hytrach na'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer ASBO, sef ymddygiad sy'n achosi (neu'n debygol o achosi) aflonyddwch, ofn neu ofid.

22. Yn wahanol i ASBO ac ASBI, bydd IPNA yn gallu cyflwyno gofynion cadarnhaol yn ogystal â gwahardd gweithredoedd.

23. Yn wahanol i ASBO, ni fydd torri amodau IPNA yn drosedd, ond bydd yn cael ei gosbi fel achos o ddirmyg llys. Bydd achosion yn cael eu dwyn gerbron llys sirol neu'r Uchel Lys, tra bod achosion ASBO annibynnol yn cael eu dwyn gerbron llys ynadon.

24. I grynhoi:

- Gwaharddeb sifil yw'r IPNA ac mae ar gael yn y llys sirol ar gyfer oedolion ac yn y llys ieuenctid ar gyfer unigolion o dan 18 oed.
- Mae'r waharddeb yn disodli amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd gan gynnwys yr ASBO ar gais, yr ASBI, y gorchymyn gwahardd yfed ar gais, gorchmynion ymyrryd a gorchmynion cymorth unigol.

- Gellir dwyn gwaharddeb yn erbyn unigolyn 10 oed neu drosodd os bydd y llys yn fodlon, yn ôl yr hyn sy'n debygol (y safon prawf sifil), bod yr unigolyn wedi cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu ei fod yn bygwth cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath, a'i fod yn gyfiawn ac yn gyfleus dyfarnu'r waharddeb.
- Bydd gwaharddeb ar gael i nifer o gyrff cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol, darparwyr tai, Asiantaeth yr Amgylchedd, Gweinidogion Cymru (sy'n arfer swyddogaethau sy'n cyfateb i swyddogaethau rheoli diogelwch a gaiff eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 195(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006) neu Awdurdod Iechyd Arbennig (sy'n gweithredu yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru) er mwyn atal ac ymdrin ag ymddygiad sy'n achosi niwsans neu flinder i unrhyw unigolyn.
- Gallai'r waharddeb gynnwys gwaharddiadau sy'n helpu i atal unrhyw achosion o niwsans neu darfu ar bersonau yn y dyfodol. Gall gwaharddiadau o'r fath gynnwys, er enghraifft, peidio â meddu ar gan o baent chwistrellu mewn man cyhoeddus, peidio â mynd i ardal benodol, neu beidio â bod yn feddw mewn man cyhoeddus. Gallai'r waharddeb hefyd gynnwys gofynion cadarnhaol i annog yr unigolyn i ymdrin ag achos sylfaenol unrhyw ymddygiad.

25. Mae rhai sylwebwyr, yn enwedig ymarferwyr, wedi croesawu hyblygrwydd yr IPNA newydd, sydd â'r potensial i fod yn fwy effeithiol na'r ASBO yn eu barn hwy. Mae sylwebwyr eraill wedi mynegi pryderon am ddiffiniad eang ymddygiad gwrthgymdeithasol (mae'r term yn cwmpasu ystod eang o ymddygiad. Mae rhywfaint ohono'n fân-droseddau; efallai nad yw mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn anghyfreithlon, ond maent yn tarfu ar unigolion ac yn achosi aflonyddwch, ofn neu ofid). Yn ogystal, mynegwyd pryder mai dim ond i'r safon sifil – yn ôl pwysau tebygolrwydd - y bydd angen profi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae honno'n haws i'w phrofi na'r safon prawf droseddol – 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'- sydd ei angen ar gyfer ASBO ar hyn o bryd.

26. Mewn ymateb i gwestiwn am y pryderon ynghylch y ffaith y gallai'r cynigion arwain unigolion ar hyd llwybr cyflym i'r system cyfiawnder troseddol yn hytrach na'u hannog i'r cyfeiriad arall, dywedodd y Gweinidog:

> "I would hope not, and there is certainly nothing to make us think that it would. The IPNA is to stop people from being criminalised, so I would certainly hope that that would not be the case. I have just

> mentioned how much importance we place on diverting young people away from the criminal justice system, so I would be very concerned if that were the case.”

27. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a fyddai IPNA yn cael ei defnyddio’n gymesur ac yn gyson ai peidio, dywedodd y Gweinidog:

> “Until we know a bit more about them, it is a bit difficult to say, but there are concerns that kangaroo courts will spring up or something and that people would be dragged before them. So, it is really important that we see how they work. Obviously, it is for local determination—it is for local authorities to decide how they would use it. Again, it is something that we will have to monitor. Lots of aspects of this concern me, as to how they will play out, and it will be up to us to monitor it, and, if necessary, make representations.”

28. O ran sicrhau bod pobl ledled Cymru yn cael eu trin yn deg gan awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog:

> “As I say, we will have to see what thresholds are set. We will have to give them some direction, I presume, to make sure that we do not have a huge variation.”

29. O ran y posibilrwydd y gellid cyflwyno IPNA yn erbyn plant mor ifanc â 10 oed, ac a allai hyn, i bob pwrpas, eu gwneud yn droseddwyr ai peidio, dywedodd y Gweinidog:

> “I think that it will get them help earlier. We go back to the point about trying to keep people out of the system: they would get help earlier than perhaps they would have done previously.”

**Rhan 2 – Gorchmynion Ymddygiad Troseddol**

30. Bydd Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO) yn disodli rhai gorchmynion sydd ar gael ar hyn o bryd lle y mae rhywun wedi cael ei ddyfarnu’n euog o drosedd. Maent yn cynnwys ASBO yn dilyn collfarn, neu “CRASBO”. Mae’r gorchymyn newydd yn debyg i’r CRASBO. Un gwahaniaeth yw y bydd y llysoedd yn gallu gorfodi gofynion cadarnhaol.

31. I grynhoi:

- Gorchymyn yn dilyn collfarn fydd y CBO, a fydd ar gael yn dilyn collfarn ar gyfer unrhyw drosedd yn Llys y Goron, mewn llys ynadon neu mewn llys ieuenctid. Byddai'n disodli'r ASBO yn dilyn collfarn a'r gorchymyn gwahardd yfed yn dilyn collfarn.
- Dim ond os bydd yr erlynydd yn gwneud cais am orchymyn o'r fath y bydd llys yn gallu gwneud gorchymyn ymddygiad troseddol yn erbyn troseddwr. Fel arfer, yr heddlu neu'r awdurdod lleol fyddai'n cychwyn y broses hon.
- Yn wahanol i'r broses bresennol, byddai awdurdodau lleol yn gallu gwneud cais uniongyrchol i'r erlyniad heb ofyn am ganiatâd gan yr heddlu.
- Gellir gwneud gorchymyn yn erbyn unigolyn dros 10 oed os bydd y llys yn fodlon bod y troseddwr wedi cymryd rhan mewn ymddygiad a achosodd neu a oedd yn debygol o achosi aflonyddwch, ofn neu ofid i un unigolyn neu fwy nad oedd o'r un cartref â'r troseddwr a bod y llys o'r farn y bydd gwneud y gorchymyn yn helpu i atal y troseddwr rhag cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath.
- Gan mai yn dilyn collfarn y câi'r gorchymyn ei wneud, safon y prawf fyddai "y tu hwnt i amheuaeth resymol" (fel sy’n wir o dan y gyfraith sy’n berthnasol i’r CRASBO ar hyn o bryd).
- Yn yr un modd â'r Waharddeb o dan Ran 1 o'r Bil, gallai'r gorchymyn gynnwys gwaharddiadau a/neu ofynion cadarnhaol sy'n helpu i atal y troseddwr rhag cymryd rhan mewn ymddygiad a allai beri aflonyddwch, ofn a gofid yn y dyfodol.
- Mae enghraifft bosibl o ofyniad cadarnhaol y gellid ei gynnwys mewn CBO yn cynnwys mynd ar gwrs i ymdrin ag achosion sylfaenol yr ymddygiad a arweiniodd at y CBO. Lle y mae CBO yn cynnwys gofyniad cadarnhaol, rhaid i'r llys hefyd bennu unigolyn i fod yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â'r gofyniad. Mae enghreifftiau posibl yn cynnwys awdurdod lleol neu ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu cydnabyddedig mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau
- Cyn cynnwys gofyniad yn y gorchymyn, rhaid i'r llys gael tystiolaeth am ba mor addas yw gofyniad ac os gellir ei orfodi gan yr unigolyn neu'r corff a bennir i oruchwylio cydymffurfiaeth â’r gorchymyn.

32. O ran effaith y gofynion cadarnhaol mewn CBO ar awdurdodau lleol, dywedodd y Gweinidog:

> "The proposals replace existing powers. For instance, I was concerned that maybe they would place additional burdens on local authorities, but I am reassured that that is not the case because they do replace existing powers. I will go back. We will need to continue to monitor the potential impact that this legislation will have on local authorities. If need be, I will make representations to the Home Office."

**Rhan 6 – y Trothwy Cymunedol**

33. Mae Rhan 6 o'r Bil yn cyflwyno 'Trothwy Cymunedol' newydd a fyddai'n rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau fynnu bod asiantaethau'n mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus a anwybyddwyd yn y gorffennol.

34. I grynhoi:

- Mae'r Trothwy Cymunedol yn ddull y gall unigolion sy'n dioddef ymddygiad parhaus sy'n peri aflonyddwch, ofn neu bryder ei ddefnyddio i wneud cais i'r cyrff perthnasol gynnal adolygiad o achos.
- Byddai adolygiad o achos yn golygu y byddai'r cyrff perthnasol yn rhannu gwybodaeth am yr achos, yn trafod pa gamau a gymerwyd yn flaenorol, a chyda'i gilydd, yn penderfynu a ellid cymryd unrhyw gamau pellach.
- Mae cyrff perthnasol yn cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, darparwyr iechyd a darparwyr tai cymdeithasol.
- Gall unrhyw unigolyn, cymuned neu fusnes wneud cais am adolygiad o achos, a rhaid i'r cyrff perthnasol gynnal adolygiad o achos os bodlonir y trothwy. Gall unrhyw un ofyn am adolygiad, felly byddai Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, cynghorwyr lleol ac eraill yn gallu defnyddio'r trothwy ar ran dioddefwyr.
- Caiff y trothwy ei bennu'n lleol gan y cyrff perthnasol. Gallai, er enghraifft, fod yn dri adroddiad o achosion o ymddygiad o'r fath ar wahân o fewn cyfnod o chwe mis, lle na fu ymateb digonol i'r ymddygiad hwnnw.
- Gellir pennu'r trothwy hefyd gan gyfeirio at natur barhaus yr ymddygiad, y posibilrwydd y gwneir niwed i'r dioddefwr, a pha mor ddigonol yw'r ymateb gan asiantaethau.
- Ni ddylid pennu'r trothwy yn uwch na thri chwyn, ond gall asiantaethau ddewis pennu trothwy is.

- Bwriedir i'r trothwy cymunedol weithredu fel rhwyd ddiogelwch wrth gefn i ddioddefwyr sydd o'r farn na fu ymateb priodol i'w cwynion.

35. O ran y ddarpariaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol bennu eu trothwy eu hunain, dywedodd y Gweinidog:

> "I think that this will be a positive step. Local authorities will be compelled to publish the thresholds that they set, or any criteria process. They would have to publish any reporting mechanisms that they wished to use. I think that that will make them more accountable to their local population and to the people whom they serve. It should mean that they are also focusing on the needs of the victims in the area. I did say earlier that the community trigger is aimed at protecting victims, and local authorities, along with housing providers, will obviously know what is best for the local area. As it is replacing existing responsibilities, I do not think that the impact will be too great on local authorities."

**Materion Eraill**

***Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na Bil Cynulliad***

36. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r materion hyn gael sylw yn y Bil. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod amheuaeth o ran a yw rhai darpariaethau yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad yn llwyr ac mae o'r farn bod manteision i gynnwys yr holl ddarpariaethau mewn un Bil cydlynol ar gyfer y DU.

37. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o blaid gweithredu deddfwriaeth (yn y cyd-destun hwn) sy'n gyson ledled Cymru a Lloegr.

***Deddfwriaeth arfaethedig – Llywodraeth Cymru***

38. O ran effaith y cynigion ar fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'i deddfwriaeth ei hun ar gyfer troseddwyr ifanc, dywedodd y Gweinidog:

> "It will not have an impact. As I said, I am considering, following the Green Paper consultation, which finished last December. I have had an analysis of the consultation responses undertaken. I am looking at options for legislation now, but this will probably not have much of an impact."

### *Pwyntiau cyffredinol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol*

39. Nid yw Rhannau 1 na 2 o'r Bil yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru. Mae eu cychwyn yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol.

### *Goblygiadau ariannol*

40. Yn ôl Memorandwm Llywodraeth Cymru, 'nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r cynigion yn y Bil'. Mae hefyd yn nodi:

> "Gall fod costau cysylltiedig i awdurdodau lleol ond mae'r cynigion hyn yn disodli darpariaeth sy'n bodoli eisoes - felly mae arian ar gael ar hyn o bryd ac ni ddylai fod unrhyw faich ychwanegol. At hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn rhagweld y bydd arbedion cost yn gysylltiedig â'r cynigion newydd er nad yw'n bosibl meintioli'r arbedion hynny ar hyn o bryd."

41. Mewn ymateb i gwestiwn am oblygiadau ariannol y cynigion, dywedodd y Gweinidog:

> "It is primarily UK Government legislation, so it is up to it to make sure that it has the appropriate funding in place for its sections of it. Officials have been discussing the point about finance. I think that it is anticipated that there will be cost savings by removing existing anti-social behaviour laws. So, it is believed that these proposals will be cost-neutral, but we have not been able to be completely clear, I think that it is safe to say."

42. Yn ôl y swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

> "[…] this is something that I raised very early on with my colleague in the Home Office. Clearly, we are in a bit of a difficult situation with the devolved and non-devolved interface, and the burden is on local authorities. I did make it clear from the very beginning that, actually, we need to be assured that there will be sufficient funding available to fund these, and my colleague was quite adamant that if there would not be cost savings, it would be cost-neutral, because they are removing previous burdens from local authorities and replacing them with these instead."

## Casgliad

43. Hoffem ddwyn y materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn i sylw'r Cynulliad cyn iddo drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.